# Rhywogaethau a warchodir a rheoli coetiroedd: ein dull rheoleiddio

Nodyn cyfarwyddyd

**Cyfeirnod:** GN 072

**Perchennog y ddogfen:** Pennaeth Busnes, Rheoleiddio a Thrwyddedu

## Beth yw diben y ddogfen hon?

Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn rhoi crynodeb o'r ffyrdd y mae angen ystyried a gwarchod rhywogaethau a warchodir yn ystod gweithrediadau rheoli coetir yng Nghymru.

Mae'n crynhoi'r ddeddfwriaeth allweddol ac yn rhoi cyngor ar sut y gallwch reoli eich coetir heb dorri'r gyfraith, gan gynnwys pryd y gallai fod angen i chi ystyried gwneud cais am drwydded rhywogaeth. Mae'n rhoi trosolwg cyffredinol a dylid ei ddarllen ar y cyd ag unrhyw ganllawiau arfer da cyhoeddedig ar gyfer rhywogaethau yr ydych yn eu nodi.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i weithgareddau rheoli coetir parhaus, p'un a oes angen trwydded cwympo coed ai peidio. Er y gallai rhywfaint o'r wybodaeth fod yn ddefnyddiol mewn cyd-destunau eraill, nid yw'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu i gwmpasu gweithgareddau fel adeiladu ffyrdd coedwig, neu seilwaith parhaol neu led-barhaol arall, neu ddefnyddiau coedwig eraill, fel digwyddiadau chwaraeon neu hamdden. Os bydd eich gweithrediad coedwigaeth yn digwydd o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), neu safleoedd eraill a warchodir, mae'n debygol y bydd angen cydsyniad ychwanegol arnoch gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd.

Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn, a'r canllawiau arfer da cysylltiedig sy'n ymwneud â Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru fel canllawiau o dan baragraff 43(9)(b) o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae hyn yn golygu bod rhaid i lys eu hystyried mewn achosion sy'n ymwneud â throseddau aflonyddu ar anifeiliaid a warchodir gan Ewrop, neu ddifrodi a dinistrio eu safleoedd bridio neu eu mannau gorffwys.

## Ar gyfer pwy y mae'r ddogfen hon?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sy'n ymgymryd â gweithgareddau rheoli coetir neu goedwigaeth yng Nghymru.

## Manylion cyswllt ar gyfer cwestiynau ac adborth

land.approaches@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

| Fersiwn y ddogfen | Dyddiad cyhoeddi | Crynodeb o’r newidiadau |
| --- | --- | --- |
| 1.0 | 1 Mehefin 2026 | Cyhoeddwyd y ddogfen |

Dyddiad adolygu: Mai 2028

I roi gwybod am faterion neu broblemau gyda’r canllaw hwn, anfonwch neges e-bost i: guidance.development@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

# Cyflwyniad

Mae rheoli coetiroedd yn gynaliadwy yn elfen bwysig ar gyfer cynnal bioamrywiaeth yng nghoetiroedd Cymru. Dylai fod yn bosibl darparu ar gyfer rhywogaethau a warchodir heb wneud eich gweithrediad coetir yn anhyfyw.

Gall y ffordd y mae angen i chi gydymffurfio â'r gyfraith fod ychydig yn wahanol yn dibynnu ar y rhywogaeth a’r ffordd y mae'n cael ei diogelu. Bydd pa fesurau sy'n “rhesymol” yn gymesur â graddfa'r gweithrediad a'r niwed posibl i'r rhywogaeth. Fodd bynnag, ym mhob achos dylech wneud y canlynol:

- Cymryd camau rhesymol i nodi a oes rhywogaethau a warchodir yn bresennol
- Pan fo modd, cynllunio gwaith i osgoi risgiau o’u niweidio nhw neu eu cynefin yn anfwriadol yn ystod y gweithrediad a sicrhau y bydd eich rheolaeth yn arwain at gynnal neu wella amodau eu cynefin, ar ôl ei gwblhau
- Dilyn unrhyw ganllawiau arfer da perthnasol, neu unrhyw amodau amgylcheddol ar eich trwydded cwympo coed, a rheoli unrhyw risgiau gweddilliol yn unol â'r amddiffyniad cyfreithiol ar gyfer pob rhywogaeth
- Cadw cofnodion fel y gallwch ddangos sut rydych chi wedi ystyried rhywogaethau a warchodir

Os nad yw hyn yn bosibl, efallai y bydd angen i chi ailystyried eich gweithrediad, cymryd cyngor pellach, neu wneud cais am drwydded rhywogaeth, os yw'r opsiwn hwnnw ar gael.

# Diogelu rhywogaethau yng Nghymru: crynodeb o'r gyfraith

Y ddau brif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rhywogaethau a warchodir yn y DU yw Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y Rheoliadau Cynefinoedd).

Deddfwriaeth y DU a droswyd Cyfarwyddeb Cynefinoedd Ewrop i’n cyfraith ddomestig yw'r Rheoliadau Cynefinoedd. Er nad yw'r DU bellach yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd, mae'r

rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth a droswyd yn parhau mewn grym, gan gynnwys y Rheoliadau Cynefinoedd. Dyma pam y cyfeirir yn aml at rywogaethau a warchodir o dan y Rheoliadau Cynefinoedd fel ‘Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop’. Weithiau cyfeirir at rywogaethau sydd ond wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel ‘Rhywogaethau a Warchodir gan y DU’.

Yn ogystal, mae rhywfaint o ddeddfwriaeth ddomestig sy'n benodol i rywogaethau, a'r mwyaf perthnasol yng nghyd-destun coedwigaeth yw Deddf Diogelu Moch Daear 1992 (‘y Ddeddf Moch Daear’) a Deddf Ceirw 1991 (‘y Ddeddf Ceirw’).

Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn amddiffyn y rhywogaethau y maent yn perthyn iddynt ychydig yn wahanol. Er nad oes angen i chi ddeall yr holl wahaniaethau, efallai y bydd angen i chi weithredu'n wahanol yn dibynnu ar y ffordd mae'r rhywogaeth yn cael ei diogelu, felly fel arfer bydd yn ddefnyddiol gwybod o leiaf a yw'r rhywogaethau y mae angen i chi eu hystyried yn Rhywogaethau a Warchodir gan y DU neu’n Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

Mae'r gyfraith yn cydnabod bod angen i weithgareddau rheoli tir a gweithgareddau dynol eraill ddigwydd, hyd yn oed lle mae rhywogaethau a warchodir yn bresennol. Efallai y bydd angen rhai gweithgareddau parhaus, fel gweithgareddau rheoli coetir cynaliadwy ac amaethyddiaeth, hefyd ar gyfer cynnal a chadw'r cynefin y mae rhywogaethau a warchodir yn dibynnu arno. Mae'r gyfraith yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i reoleiddio'r gweithgareddau hyn yn gymesur, fel bod rhywogaethau a warchodir yn elwa ar weithgarwch dynol cynaliadwy.

# Y gwahaniaethau allweddol rhwng Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a’r Rheoliadau Cynefinoedd

Mae'r **Rheoliadau Cynefinoedd** yn ei gwneud yn ofynnol i chi weithio mewn ffordd sy'n osgoi effeithio ar Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop i'r graddau y byddai'n drosedd. Byddai hyn yn cynnwys eu lladd neu eu hanafu’n fwriadol, neu’n tarfu arnynt yn fwriadol i raddau sy’n effeithio’n sylweddol arnynt neu’n amharu ar eu gallu i oroesi, bridio neu aeafgysgu. Gallai difrodi neu ddinistrio eu safleoedd bridio a'u mannau gorffwys fod yn drosedd hyd yn oed os nad ydych chi'n ei wneud yn fwriadol.

Dylech anelu at weithio mewn ffordd sy'n golygu nad yw unrhyw effeithiau ar Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn bodloni'r trothwy ar gyfer cael ei hystyried yn drosedd. Efallai y bydd angen dehongli rhai o'r troseddau'n ofalus ac rydym wedi cyhoeddi canllawiau arfer da penodol ar gyfer rhai rhywogaethau i'ch helpu i ddeall yr hyn y mae angen i chi ei wneud.

Os na allwch osgoi torri amddiffyniadau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, efallai y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu rhoi trwydded i'ch galluogi i gyflawni eich gwaith yn gyfreithlon. Dim ond os ydym yn hyderus nad oes dewis arall boddhaol ac na fydd yn niweidio statws cadwraeth ffafriol y rhywogaeth y gallwn wneud hynny. Os bodlonir y profion hyn, gallwn ystyried rhoi trwydded, ond dim ond fel dewis olaf.

Mae **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981** yn gweithio ychydig yn wahanol. Er bod y troseddau'n debyg, a bod disgwyl o hyd y dylech osgoi niweidio'r rhywogaethau hyn, mae amddiffyniad cyffredinol a all fod yn berthnasol i weithgareddau fel coedwigaeth os gallwch ddangos mai'r niwed oedd *"canlyniad damweiniol gweithrediad cyfreithlon ac na ellid yn rhesymol fod wedi'i osgoi"* ('yr amddiffyniad canlyniad damweiniol').

Ni ddylid ystyried hyn yn 'opsiwn hawdd' oherwydd, er mwyn dibynnu ar yr amddiffyniad hwn, efallai y bydd angen i chi ddangos i lys fod y canlynol yn wir:

- Roedd y niwed yn 'ddamweiniol' – mewn geiriau eraill, roedd y niwed i'r rhywogaeth yn sgil-effaith o'ch gweithgareddau rheoli coedwig ac nid yn ganlyniad bwriadedig.
- Roedd eich gwaith yn 'gyfreithlon' (heb gyfrif y niwed i'r rhywogaeth) – er enghraifft, efallai y bydd angen i chi ddangos bod gennych drwydded cwympo coed briodol a'ch bod yn dilyn ei holl delerau ac amodau.
- Ni ellid bod wedi osgoi'r niwed yn rhesymol – mewn geiriau eraill, eich bod wedi cymryd pob mesur rhesymol, o ystyried natur a graddfa eich gweithrediad, i osgoi neu leihau'r niwed. Gallem ddisgwyl i fesurau o'r fath gynnwys cymryd camau rhesymol i nodi a yw rhywogaethau a warchodir yn debygol o fod yn eich coetir, ac yna cyflawni'r gwaith mewn ffordd nad yw'n achosi mwy o niwed nag sy'n gwbl angenrheidiol i'ch galluogi i gyflawni eich amcanion – efallai drwy beidio â gwneud y gwaith pan fydd y rhywogaeth fwyaf agored i niwed, fel yn ystod ei thymor bridio.

Er bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau i roi trwyddedau ar gyfer gweithgareddau sy'n effeithio ar Rywogaethau a Warchodir gan y DU, dim ond at rai dibenion cyfyngedig a bennir yn y Ddeddf y gall wneud hyn. Nid oes gennym y pŵer i roi trwyddedau at ddibenion coedwigaeth.

Mae amddiffyniad canlyniad damweiniol tebyg yn y Ddeddf Moch Daear. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i roi trwyddedau i ganiatáu ymyrryd â brochfa moch daear at ddibenion coedwigaeth, ond nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru na Llywodraeth Cymru bwerau i roi trwyddedau sy'n caniatáu effeithiau eraill ar foch daear at ddibenion coedwigaeth.

Felly, ar gyfer **pob rhywogaeth a warchodir** bydd angen i chi wneud y canlynol:

- cymryd camau priodol i benderfynu a yw rhywogaethau a warchodir yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol, ac, os ydynt:
- mabwysiadu ffyrdd o weithio sy'n golygu na fyddwch yn achosi niwed y gellir ei osgoi

Fodd bynnag, os na allwch osgoi achosi niwed sy'n ddigonol i sbarduno trosedd:

- ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir gan y DU, bydd angen i chi ddibynnu ar yr amddiffyniad canlyniad damweiniol
- ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, bydd angen i chi wneud cais i Cyfoeth Naturiol Cymru am drwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop

Ym mhob achos, dylech chi bob amser anelu at atal y niwed rhag digwydd yn y lle cyntaf.

# Pa rywogaethau a warchodir y gallai fod angen i mi eu hystyried?

Gall eich coetir gynnwys anifeiliaid neu adar a warchodir yn ogystal â phlanhigion a warchodir. Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar yr anifeiliaid ac adar a warchodir sydd fwyaf tebygol o gael eu canfod mewn coetiroedd yng Nghymru. Rydym yn cyhoeddi nifer o ganllawiau arfer da ychwanegol i'ch helpu i adnabod a rheoli'r rhywogaethau hyn wrth reoli coedwigoedd.

## Adar

Mae pob aderyn gwyllt a'u nythod a'u hwyau wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Yn ogystal, rhoddir gwarchodaeth well i rai adar, gan gynnwys gwalch y pysgod, y dylluan wen a'r hebog tramor. Cyfeirir at y rhain fel adar Atodlen 1.

## Anifeiliaid

Mae pathewod, ystlumod, madfallod dŵr cribog a dyfrgwn yn enghreifftiau o rywogaethau coetir sy’n Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop ac sy'n cael eu gwarchod o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae gwiwerod coch, llygod y dŵr a beleod yn enghreifftiau o rywogaethau coetir sy’n Rhywogaethau a Warchodir gan y DU ac sy’n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Mae moch daear wedi'u gwarchod yn benodol o dan y Ddeddf Moch Daear ac mae’r ffordd y caiff ceirw eu rheoli wedi'i rheoleiddio drwy’r Ddeddf Ceirw.

# Gwybod eich coetir a gwirio am bresenoldeb rhywogaethau a warchodir

Po fwyaf y gwyddoch am y rhywogaethau sy'n defnyddio'ch coetir, a pho gynharaf y gwyddoch, y mwyaf hawdd y gallwch gynllunio'ch gweithgarwch rheoli er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi bioamrywiaeth ac nad yw'n torri'r gyfraith.

Y ddwy brif ffordd o wirio am rywogaethau a warchodir yw gwirio cofnodion a chynnal arolygon ar droed. Efallai y byddwch hefyd yn cael gwybodaeth ddefnyddiol gan grwpiau cadwraeth lleol neu o wybodaeth leol.

Yn aml, y ffordd orau o wirio coetir am rywogaethau a warchodir yw trwy sicrhau cymorth arolygydd ecolegol arbenigol, ond byddai angen i chi dalu am hyn felly efallai na fydd bob amser yn bosibl.

Os byddwch yn gwneud cais am drwydded cwympo coed gan Cyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn gwirio cofnodion ac efallai y byddwn yn gosod amodau amgylcheddol penodol

os byddwn yn dod o hyd i dystiolaeth bod rhywogaethau a warchodir yn debygol o fod yn bresennol (rydym yn egluro mwy am hyn yn yr adran isod). Fodd bynnag, ni fyddwn fel arfer wedi ymweld â'ch coetir na'i arolygu, felly bydd yn rhaid i chi wirio am arwyddion ffisegol ar y safle o hyd.

# Gwirio am gofnodion

Mae dwy brif ffordd y gallwch wirio am gofnodion:

1. Talu am chwiliad
2. Gwneud eich chwiliad data eich hun

## Talu am chwiliad o Ganolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol

Mae Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol yn dal y setiau data mwyaf cyfredol a chynhwysfawr a gallwch eu comisiynu i chwilio am gofnodion yn eich coetir neu gerllaw iddo: Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru (lercwales.org.uk).

Er bod hwn yn wasanaeth y codir tâl amdano, gall arbed amser ac arian i chi yn yr hirdymor.

## Gwneud eich chwiliad data eich hun gan ddefnyddio Atlas NBN rhad ac am ddim

Fel arall, gallwch ymgynghori ag Atlas NBN ar-lein, sy'n rhad ac am ddim: Atlas NBN – Casgliad mwyaf y DU o wybodaeth am fioamrywiaeth

Fel arfer, gall Atlas NBN ddweud wrthych chi a oes cofnodion o rywogaeth ger eich ardal chwilio, ond efallai na fydd yn rhoi'r holl gofnodion, na'r holl fanylion, i chi y byddai chwiliad y codir tâl amdano yn eu rhoi i chi.

Byddwch yn ymwybodol na ellir defnyddio data a uwchlwythwyd i Atlas NBN o dan *drwydded anfasnachol Creative Commons gyda phriodoliad* (CC-BY-NC) at ddibenion masnachol. Os ydych chi'n cynnal chwiliad data fel rhan o weithrediad coedwigaeth masnachol, efallai y bydd angen i chi analluogi'r haen hon cyn dechrau eich chwiliad.

# Arolygon ar droed

Mae arolwg ar droed yn cynnwys gwirio'ch safle am arwyddion ffisegol sy'n dynodi presenoldeb rhywogaethau a warchodir. Os ydych chi eisoes yn ymwybodol bod rhywogaethau a warchodir yn bresennol, mae hwn hefyd yn gyfle i nodi ardaloedd o gynefinoedd y maent yn dibynnu arnynt ac y mae angen eu gwarchod, yn enwedig unrhyw adeileddau penodol fel clwydfannau ystlumod neu walau dyfrgwn y mae angen eu gwarchod rhag gwaith cwympo, difrod neu aflonyddwch.

Er ein bod yn argymell cynnal arolygon ar droed gyda chymorth ecolegydd cymwys, gall unrhyw un eu cynnal os oes ganddynt brofiad neu hyfforddiant perthnasol. Byddem yn

disgwyl, o leiaf, bod yr unigolyn sy'n cynnal arolwg ar droed wedi mynychu cwrs codi ymwybyddiaeth am rywogaethau perthnasol ac yn hyderus y bydd yn gallu adnabod yr arwyddion perthnasol. Os gwyddoch chi fod gennych chi nodweddion fel clwydfannau ystlumod yn eich coetir, bydd yn arbennig o bwysig bod gan yr unigolyn sy'n gwneud yr arolwg ar droed ddigon o gymhwysedd penodol i'r rhywogaethau dan sylw.

Cofiwch y gallai fod angen i chi ddibynnu ar ganlyniad yr arolwg i'ch cadw ar ochr gywir y gyfraith. Os nad ydych chi'n hyderus bod yr unigolyn sy'n cynnal yr arolwg ar droed yn gymwys ac yn gallu adnabod arwyddion y rhywogaethau hyn, byddai'n ddoeth i chi geisio cyngor gan weithiwr proffesiynol.

Rydym wedi gweithio gyda Chymdeithas y Mamaliaid i lunio canllawiau ar yr hyn i chwilio amdano a'i gofnodi yn ystod yr arolwg ar droed. Fodd bynnag, nid yw'r canllaw hwn yn ddewis arall yn lle defnyddio arolygydd cymwys. Mae llawer o grwpiau cadwraeth hefyd yn cyhoeddi canllawiau manwl ar adnabod arwyddion rhywogaethau penodol.

Dylech gofnodi eich arolwg, gan gynnwys pryd y cafodd ei gynnal, gan bwy, y dulliau a ddefnyddiwyd ganddynt, a'r hyn a nodwyd ganddynt.

Efallai y bydd angen i chi gynnal arolygon ar droed ar wahanol adegau o'r dydd a gwahanol adegau o'r flwyddyn yn dibynnu ar y rhywogaeth a'r nodweddion rydych chi'n chwilio amdanynt.

# Pryd y gallai fod angen i mi geisio cyngor gan ecolegydd?

Pan fo modd, byddem bob amser yn eich annog i weithio gydag ecolegydd oherwydd y gallant helpu gyda llawer o bethau, gan gynnwys y broses o gynnal arolygon, deall arferion da, ac awgrymu mesurau lliniaru penodol i'r safle i'ch helpu i weithio yn unol â'r gyfraith. Os byddwch chi'n canfod bod angen trwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop arnoch chi, gallant eich helpu gyda'ch cais.

Fodd bynnag, rydym yn deall nid oes modd bob amser cyfiawnhau'r gost o ystyried maint y gwaith. Po fwyaf eich gweithrediad, y mwyaf tebygol yw y bydd cymorth ecolegol proffesiynol yn briodol. Mae gweithredwyr coedwigaeth proffesiynol mwy yn tueddu i fod â'u hecolegwyr mewnol eu hunain am y rheswm hwn.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyflogi ymgynghorydd ecolegol, mae'r Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol yn cyhoeddi [canllawiau ar sut i gyflogi ecolegydd]: [A Householders' Guide to Engaging an Ecologist | CIEEM].

Weithiau rydym yn cyfeirio at ymgynghori ag "ecolegydd cymwys" yn ein canllawiau arfer da. Nid oes rhaid i hyn fod yn ymgynghorydd ecolegol proffesiynol bob amser. Gall unrhyw un sydd â'r profiad a'r hyfforddiant ecolegol angenrheidiol ymgymryd â rôl yr "ecolegydd cymwys" – er enghraifft, gallai fod yn goedwigwr neu'n gynghorydd o sefydliad cadwraeth perthnasol. Bydd y lefel ofynnol o hyfforddiant a phrofiad yn dibynnu ar y rhywogaeth sy'n cael ei hystyried a lefel y cyngor a ddarperir. Pwy bynnag rydych chi'n dibynnu arno ar gyfer y rôl hon, dylech chi sicrhau eich bod chi'n fodlon bod dilyn eu cyngor yn rhesymol. Yn y pen draw, chi fydd yn gyfrifol am sicrhau nad yw trosedd yn cael ei chyflawni.

# Canllawiau arfer da

Os oes gennych rywogaethau a warchodir yn eich coetir, gwiriwch a ydym wedi cyhoeddi canllaw arfer da ar gyfer y rhywogaeth honno.

Dylai dilyn arferion da fod y nod bob amser fel bod eich gweithrediadau rheoli coetir o fudd i rywogaethau a warchodir ac nad ydynt yn eu niweidio. Dylai gweithrediadau coedwigaeth yng Nghymru gydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU fel safon ofynnol. Serch hynny, er y bydd hyn yn mynd yn bell i sicrhau bod eich gweithrediadau rheoli coetir yn cyflawni'r canlyniadau cywir ar gyfer rhywogaethau a warchodir, efallai y bydd angen mynd ymhellach.

Mae canllawiau arfer da yn nodi ffyrdd o weithio yr ydym yn eu hystyried fel y mesurau diogelwch gofynnol y dylech eu cymryd i'ch helpu i osgoi cyflawni trosedd. Fel arfer, disgrifir y rhain fel camau y mae'n “rhaid” i chi eu cymryd. Byddant fel arfer hefyd yn cynnwys awgrymiadau ychwanegol ar sut y gallwch reoli eich coetir er budd y rhywogaeth.

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn arferion da i gadw o fewn y gyfraith, yna bydd angen i chi wneud yr holl “bethau gorfodol” a chynifer o'r mesurau ychwanegol ag y gallwch. Efallai y bydd angen i chi allu dangos eich bod wedi cynllunio eich gwaith i sicrhau buddion hirdymor i rywogaeth os oes angen i chi gyfiawnhau rhai effeithiau tymor byr na ellir eu hosgoi yn ystod y gweithrediad. Weithiau mae gweithgareddau parhaus fel coedwigaeth yn cael eu trin yn wahanol i weithgareddau eraill fel datblygu. Yn rhannol, mae hyn oherwydd eu bod weithiau'n hollbwysig ar gyfer cynnal neu wella amodau cynefin sy'n hanfodol i'r rhywogaeth.

Os oes gennych rywogaeth a warchodir yn eich coetir ac na allwch ddilyn y mesurau yn y canllaw arfer da perthnasol, efallai y byddwch mewn perygl o gyflawni trosedd a bydd angen i chi ystyried newid eich cynlluniau, ceisio cyngor gan ecolegydd cymwys i nodi unrhyw fesurau lliniaru penodol i'r safle a allai ganiatáu ichi fwrw ymlaen, neu wneud cais am drwydded rhywogaeth, os yw un ar gael.

Os oes gennych rywogaethau a warchodir yn eich coetir nad ydym wedi cyhoeddi canllaw arfer da ar eu cyfer ac nad oes amod penodol ar eich trwydded cwympo coed, bydd angen i chi ddatblygu eich ffyrdd eich hun o weithio i lynu wrth y gyfraith. Os nad ydych chi'n hyderus y gallwch chi wneud hyn, dylech chi geisio cyngor gan ecolegydd cymwys.

# Trwyddedau cwympo coed a rhywogaethau a warchodir yng Nghymru: rôl amodau amgylcheddol

Os byddwch yn gwneud cais i Cyfoeth Naturiol Cymru am drwydded cwympo coed, byddwn yn gwirio am gofnodion o rywogaethau a warchodir yn eich coetir, neu'n agos ato, fel rhan o'n hasesiad, yn ogystal ag elfennau sensitif eraill fel safleoedd a warchodir. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw wybodaeth yr ydym yn anfon atom am ba rywogaethau sy'n bresennol yn eich coetir.

Os byddwn yn dod o hyd i gofnodion sy'n awgrymu bod rhywogaethau'n debygol o fod yn defnyddio'ch coetir, neu os byddwch yn dweud wrthym am rywogaeth sy'n bresennol, efallai y byddwn yn ychwanegu amodau amgylcheddol at eich trwydded cwympo coed er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn briodol. Byddwn yn ymgynghori â chi ynghylch unrhyw amodau cyn i'ch trwydded gael ei chyhoeddi'n ffurfiol a byddwch yn gallu trafod unrhyw bryderon.

Gall ein gallu i gynnwys amodau amgylcheddol ar drwyddedau torri coed ein helpu i gyflawni ein dyletswydd gyfreithiol er mwyn sicrhau mesurau diogelu rhywogaethau heb orfod troi at drwyddedau ychwanegol bob amser. Maen nhw'n ein helpu i leihau costau a gweinyddiaeth i chi ac i ni, ac i ganolbwyntio ar yr hyn y mae angen ei wneud i warchod y rhywogaeth.

Lle rydym wedi cyhoeddi canllaw arfer da ar gyfer rhywogaeth, fel arfer dim ond ei ddilyn y bydd amodau amgylcheddol yn ei gwneud yn ofynnol i chi ei wneud. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cynnwys mesurau ychwanegol yn yr amodau, e.e. os yw eich coetir yn safle arbennig o bwysig i'r rhywogaeth, neu os yw o fewn safle a warchodir, neu'n agos at un. Os gwnawn hyn, byddwn yn egluro'r rhesymau dros hyn.

Bydd amodau amgylcheddol yn arbennig o ddefnyddiol os oes gennych rywogaethau yn eich coetir nad ydynt wedi'u cynnwys mewn canllaw arfer da gan y gallant egluro'r mesurau y mae'n rhaid i chi eu cymryd i leihau'r niwed i'r rhywogaeth a glynu wrth y gyfraith.

Ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir gan y DU, bydd cydymffurfio ag unrhyw amodau amgylcheddol yn eich helpu i ddangos bod eich gwaith yn ‘weithrediad cyfreithlon' a'ch bod wedi cymryd pob gofal rhesymol i osgoi niwed diangen. Ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, bydd dangos eich bod wedi cydymffurfio ag unrhyw amodau amgylcheddol yn dystiolaeth eich bod wedi cymryd mesurau ataliol priodol i osgoi cyflawni trosedd.

Fodd bynnag, pan fyddwn yn rhoi trwydded torri coed, dim ond rhywogaethau rydych chi wedi dweud wrthym amdanynt, neu y mae cofnodion ar gael amdanynt, y byddwn yn gallu eu hystyried. Mae hyn yn golygu nad yw dibynnu ar amodau amgylcheddol ar drwydded cwympo coed yn unig yn ddigonol i sicrhau eich bod yn glynu wrth y gyfraith. Bydd angen i chi hefyd gynnal arolygon ar droed a pharhau i fod yn wyliadwrus yn ystod y gwaith. Os canfyddir tystiolaeth o rywogaethau a warchodir ychwanegol ar unrhyw adeg nad ydynt wedi'u cynnwys yn amodau eich trwydded cwympo coed, bydd angen i chi sicrhau eich bod yn dilyn arferion da priodol ar gyfer y rhywogaethau hynny a cheisio cyngor ecolegol os ydych yn ansicr.